WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwiliad 2005/2006

Rhagfyr 2006

**Awduron: Matthew Edwards a Mark Roberts** **Cyf: 950A2006**

# Cyfrifon Ariannol - Archwiliad o'r Cyfrifon Terfynol

# **Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

Cyhoeddwyd barn ddiamod ar gyfrifon yr Awdurdod Tân ar 31 Hydref 2006.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb ac Argymhellion** | 3 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Yn gyffredinol, mae system reolaeth fewnol effeithiol ar waith i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol i'r datganiadau ariannol | 5 |
| Mae rheolaethau cyfrifyddu ariannol lefel uchel yn sail effeithiol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol | 6 |
| Paratowyd y cyfrifon drafft i safon dda a rhoddwyd barn ddiamod arnynt ar 31 Hydref 2006 | 7 |
| **Atodiadau** | |
| Cynllun Gweithredu | 10 |
| Rhestr o ddiwygiadau nad ydynt yn fân ddiwygiadau | 12 |



### Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn at ddefnydd mewnol y corff a enwir. Paratoir ein hadroddiadau:

- Mewn perthynas ag archwiliad, o dan y ddeddfwriaeth alluogi berthnasol a'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu, ac yng nghyd-destun y 'Datganiad o Gyfrifoldebau', a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Mewn perthynas ag arolygiad, yn dilyn gwaith arolygu a gynhaliwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paratoir adroddiadau gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr a benodwyd, ac fe'u cyfeirir at gyfarwyddwyr anweithredol / aelodau neu swyddogion yn cynnwys y sawl a ddynodwyd yn swyddogion cyfrifyddu neu swyddogion atebol. Fe'u paratoir at ddefnydd y corff a enwir yn unig, ac nid yw Swyddfa Archwilio Cymru na'r archwilwyr a benodwyd yn atebol i unrhyw gyfarwyddwr/aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

## Crynodeb

1. O dan God Ymarfer Archwilio ac Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru, rydym yn gyfrifol am fynegi barn ar y datganiadau ariannol a ph'un a ydynt yn cyflwyno darlun teg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar 31 Mawrth 2006 pan ddaeth ei incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn i ben.
2. Cyflawnir ein harchwiliad o gyfrifon mewn dau gam i'n galluogi i ryddhau'r ddyletswydd hon. Y cam cyntaf yw profi'r rheolaethau lefel uwch sy'n cyfrannu tuag at y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'r ail gam yw archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod. Mae defnydd effeithiol o'r rheolaethau lefel uwch yn hanfodol er mwyn atal a chanfod camgymeriadau yn ystod y flwyddyn, ac yn cynorthwyo'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'u harchwilio. Os yw'r prosesau hyn yn foddhaol, caiff y risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol ei lleihau, a gellir lleihau nifer y profion manwl.
3. Ein dull archwilio, fel sy'n ofynnol gan y Safonau Archwilio Rhyngwladol yw:
   - meithrin dealltwriaeth ddigonol o'r systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol i'n galluogi i gynllunio'r archwiliad a datblygu dull archwilio effeithiol;
   - gwerthuso a phrofi'r modd y defnyddir y rheolaethau allweddol o fewn y prif systemau cyfrifyddu a rheolaeth gyllidebol, a sicrhau bod gweithdrefnau cau cyfrifon diwedd y flwyddyn cadarn ar waith;
   - defnyddio ein canfyddiadau i lywio ein hasesiad risg ar gyfer cynllunio'r gwaith manwl angenrheidiol yn yr archwiliad o'ch datganiadau ariannol 2005/2006;
   - cynnal dadansoddiad risg manwl o'r datganiadau gan ddefnyddio dulliau archwilio megis adolygiadau dadansoddol gyda'r nod o sicrhau bod ein profion yn targedu meysydd o risg uwch;
   - cynnal gwaith archwilio parhaol manwl wedi'i deilwra ar y cyfrifon er mwyn adlewyrchu materion cenedlaethol a lleol;
   - cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau i swyddogion ac aelodau er mwyn crynhoi canfyddiadau'r archwiliad a nodi unrhyw weithdrefnau ar gyfer llunio cyfrifon y gellid eu gwella yn y dyfodol.
4. Yn gyffredinol, cafwyd bod rheolaethau mewnol lefel uchel ar waith sy'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol. Llwyddwyd i gyflawni'r terfyn amser cynharach ar gyfer cyflwyno cyfrifon wedi'u harchwilio. Cymeradwywyd y cyfrifon drafft gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2006 a rhoesom farn ddiamod ar 31 Hydref 2006.
5. Dymunwn ddiolch i'r tîm cyllid am eu cydweithrediad a'u cymorth yn ystod yr archwiliad. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r tîm dros y misoedd nesaf i sicrhau y caiff newidiadau sy'n deillio o'r Cod Ymarfer newydd ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2006: Datganiad o Arfer a Argymhellir (SoRP) eu cynnwys yn natganiadau ariannol 2006/2007.

6. Nodir ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Manwl. Gwnaethom saith argymhelliad fel y'u nodir isod.

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Awdurdod sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes yn cynnwys trefniadau priodol i warchod y brif system gyfrifyddu. |
| A2 | Dylai'r Awdurdod sicrhau bod ei gyllideb yn parhau'n gadarn o ran darparu adnoddau priodol i gyflawni cyfrifoldebau ei wasanaeth tra'n cydnabod unrhyw gynnydd dilys mewn effeithlonrwydd. |
| A3 | Dylai'r Awdurdod a Swyddfa Archwilio Cymru gydweithio'n agos i ddatblygu cynllun i gynorthwyo'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol 2006/2007 a'u harchwilio'n effeithiol er mwyn cyrraedd y terfyn amser diwygiedig ar gyfer ardystio. |
| A4 | Dylai'r Awdurdod drafod y posibilrwydd o ddiwygio'r sefyllfa ddeddfwriaethol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn galluogi awdurdodau tân i gynnal cronfeydd wrth gefn a rhwystro gwyriadau o Safon Adroddiad Ariannol (FRS) 12 rhag parhau am byth. |
| A5 | Gall yr Awdurdod wella cynnwys y Datganiad am Reolaeth Fewnol o hyd, yn arbennig o ran y gwaith gwarantu penodol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. |
| A6 | Dylai'r Awdurdod adolygu'r sail ar gyfer dyrannu costau gwasanaeth yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (BVACOP) er mwyn sicrhau bod y sail gyfredol ar gyfer dyrannu costau yn briodol o hyd. |
| A7 | Dylai'r Awdurdod wneud trefniadau i adolygu datganiadau ariannol drafft cyn eu cyflwyno i'r Awdurdod am gymeradwyaeth. |

## Yn gyffredinol, mae system reolaeth fewnol effeithiol ar waith i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol i'r datganiadau ariannol.

7. Mae ISA 315 yn gofyn i archwilwyr feithrin dealltwriaeth o'r corff a archwiliwyd a'i reolaethau fewnol er mwyn nodi ac asesu’r risg o gamddatganiadau perthnasol i'r datganiadau ariannol. Er mwyn cydymffurfio â gofynion y safon hon, mae gofyn i ni ystyried pum elfen o reolaeth fewnol:
   - amgylchedd rheoli;
   - proses asesu risg;
   - system wybodaeth;
   - gweithgareddau rheoli;
   - monitro rheolaethau.
8. Mae system reolaeth fewnol effeithiol ddigonol ar waith i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol i'r datganiadau ariannol. Mae angen ystyried agweddau ar yr amgylchedd rheoli hefyd er mwyn cefnogi ein casgliad am werth am arian a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar unrhyw sylwadau sydd gennym ynglŷn â'r gwaith hwn ar wahân.

### Mae rheolaethau mewnol priodol wedi cael eu sefydlu mewn perthynas â systemau ariannol allweddol yr Awdurdod.

9. Nodwyd y systemau allweddol a bennwyd ar gyfer cynhyrchu datganiadau ariannol i roi dealltwriaeth eglur i ni o systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol yr Awdurdod. Ymhlith y systemau allweddol a adolygwyd roedd cyfrifyddu, rheolaeth gyllidebol, cyflogres, dyledwyr, asedau sefydlog a storfeydd. Cwmpasodd ein hadolygiad systemau a weithredir gan yr Awdurdod a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy.
10. Dangosodd ein hadolygiad bod dogfennau a rheolaethau priodol ar waith. Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol ar gyfer gwella:
    - **Parhad Busnes -** Nid oes gan Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy drefniant trydydd parti allanol i gynorthwyo'r trefniadau adfer trychineb ar gyfer y brif system gyfrifyddu.
    - **Cyflogres** – Nid yw'r ddogfennaeth ar gyfer y system gyflogres newydd a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystod y flwyddyn ariannol 2005/2006 wedi cael eu datblygu hyd yma.

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Awdurdod sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes yn cynnwys trefniadau priodol i warchod y brif system gyfrifyddu. |

### Mae'r adran Archwiliad Mewnol yn parhau i weithio tuag at gydymffurfiaeth lawn â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig

11. Roedd ein dull archwilio yn cynnwys trafodaethau gyda staff Archwilio Mewnol, adolygiad o ddogfennau allweddol gan gynnwys ffeiliau archwilio ac adolygiad manwl o sampl o waith a gynhaliwyd gan yr Archwiliad Mewnol. Erys lle i'r adran Archwilio Mewnol ddatblygu ei threfniadau ymhellach i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn â phob un o'r 10 o safonau Archwilio Mewnol CIPFA.
12. Nodir ein canfyddiadau manwl mewn adroddiad ar wahân ‘Asesiad o Archwiliad Mewnol’.

## Mae rheolaethau cyfrifyddu ariannol lefel uchel yn sail effeithiol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol

### Mae rheolaethau yn y brif system gyfrifyddu yn gweithredu yn ôl y bwriad ac mae hyn yn ffurfio sail ddibynadwy i'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol

13. Mae'r brif system gyfrifyddu yn cael ei gweithredu yn ôl y bwriad. Mae'n ffurfio sail ddibynadwy i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol. Profwyd cysoniadau banc diwedd y flwyddyn a chysoniadau cyfrifon rheoli yn ystod ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol a chafwyd eu bod yn foddhaol. Wrth adolygu'r cyfrifon dros dro a throsglwyddiadau electronig ar naill ochr i ddiwedd y flwyddyn cafwyd sicrwydd eu bod wedi cael eu cofnodi yn y cyfnod cywir.

### Mae'r trefniadau rheoli cyllidebol yn ddigonol o ran nodi gwallau perthnasol posibl

14. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Awdurdod bob tri mis sy'n monitro perfformiad yn erbyn cyllideb. Hysbyswyd yr Awdurdod o warged arfaethedig o £320,000 ym mis Mawrth 2006, yn seiliedig ar y perfformiad ariannol yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Nododd yr alldro gwirioneddol danwariant ychwanegol o £300,000 i'r swm a nodwyd ym mis naw. Yn sgil hynny, crëwyd darpariaethau ychwanegol i ddefnyddio'r gwarged ychwanegol ac osgoi ad-dalu cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol.
15. Er ein bod yn cydnabod bod natur gweithgarwch yr Awdurdod yn golygu y gallai fod angen ymateb i ddigwyddiadau eithriadol megis llifogydd, a chynnal adnoddau i dalu am bosibiliadau o'r fath, dylai'r Awdurdod gynnal archwiliad rheolaidd o'i drefniadau i sicrhau y caiff arbedion effeithiolrwydd dilys eu hadlewyrchu wrth ystyried gofynion ariannol yn y dyfodol.

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| A2 | Dylai'r Awdurdod sicrhau bod ei gyllideb yn parhau'n gadarn o ran darparu adnoddau priodol i gyflawni cyfrifoldebau ei wasanaeth tra'n cydnabod unrhyw gynnydd dilys mewn effeithlonrwydd. |

### Bu'r dull strwythuredig o gynllunio diwedd y flwyddyn yn effeithiol o ran cyflawni'r terfyn amser cynharach ar gyfer cau cyfrifon

16. Nododd Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2005 amserlen (Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan) ar gyfer paratoi a chymeradwyo datganiadau ariannol drafft yn gynt erbyn 31 Gorffennaf 2006. Llwyddodd yr Awdurdod i fodloni gofynion y rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, a chafodd y cyfrifon ariannol drafft eu cymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2006.

17. Mae'r terfyn amser ar gyfer ardystio'r datganiadau ar gyfer 2006/2007, fel y'i nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, yn cael ei symud ymlaen i 30 Medi 2007. Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i fodloni'r gofynion diwygiedig a bydd yn gweithio'n agos gyda swyddogion dros y misoedd nesaf i sicrhau y caiff y datganiadau ariannol eu cwblhau mewn pryd.

| Argymhelliad | |
|---|---|
| A3 | Dylai'r Awdurdod a Swyddfa Archwilio Cymru gydweithio'n agos i ddatblygu cynllun i gynorthwyo'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol 2006/2007 a'u harchwilio'n effeithiol er mwyn cyrraedd y terfyn amser diwygiedig ar gyfer ardystio. |

## Paratowyd y cyfrifon drafft i safon dda a rhoddwyd barn ddiamod arnynt ar 31 Hydref 2006

18. Nododd yr archwiliad nifer o ddiwygiadau i'r cyfrifon nad ydynt yn fân ddiwygiadau y cawsant eu cyflwyno i'r Awdurdod yn ein hadroddiad ISA 260 ar 23 Hydref 2006. Ceir crynodeb o'r holl ddiwygiadau y cytunwyd arnynt yn Atodiad 2. Nodwyd hefyd gamddatganiadau o ddarpariaethau na chawsant eu cywiro o £515,000 yn yr adroddiad ISA 260.

19. Mae Datganiad o Arfer a Argymhellir (SoRP) CIPFA, sy'n cydymffurfio ag FRS 12, yn nodi y dylid gwneud darpariaethau pan fydd gan awdurdod rwymedigaeth gyfredol (cyfreithiol neu'n ddeongladwy), o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Datgelodd Nodyn 9 o'r Fantolen mai diben y darpariaethau a gadwyd gan yr Awdurdod oedd cwrdd â gwariant yn y dyfodol yn hytrach na gwariant yn y gorffennol, y maent yn sicr neu'n debygol o fynd iddo. Er nad oedd y symiau canlynol a gadwyd fel darpariaethau yn cydymffurfio â gofynion SoRP, derbyniwyd fod y dull y mae'r Awdurdod wedi ei fabwysiadu yn ddarbodus ac yn dryloyw, o ystyried na chaiff awdurdodau tân gadw cronfeydd wrth gefn:

- 2006/2007 Darpariaeth Cyllideb £250,000
- Darpariaeth o Rheng i Rôl £100,000
- Darpariaeth Tâl Cyfartal £90,000
- Darpariaeth Rheoli £40,000
- Darpariaeth Ystadau £35,000

20. Mae ein hadolygiad yn rhoi sicrwydd bod y symiau a neilltuwyd yn cael eu defnyddio'n gyffredinol o fewn cyfnod rhesymol ac mae'r awdurdodau cyfansoddol hefyd yn ymwybodol o'r trefniadau ac yn fodlon arnynt. Ystyrir y driniaeth hefyd yn gyson â threfniadau'r Awdurdod ers 1996. Dylai'r Awdurdod drafod y posibilrwydd o ddiwygio'r safle deddfwriaethol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn galluogi awdurdodau tân i gynnal cronfeydd wrth gefn a rhwystro gwyriadau o Safon Adroddiad Ariannol (FRS) 12 rhag parhau am byth.

| Argymhelliad | |
|---|---|
| A4 | Dylai'r Awdurdod drafod y posibilrwydd o ddiwygio'r sefyllfa ddeddfwriaethol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn galluogi awdurdodau tân i gynnal cronfeydd wrth gefn a rhwystro gwyriadau o Safon Adroddiad Ariannol (FRS) 12 rhag parhau am byth. |

## Mae ffurf a chynnwys y Datganiad am Reolaeth Fewnol yn cydymffurfio â gofynion SoRP, fodd bynnag mae lle o hyd i ddatblygu hyn ymhellach

21. Rhoddodd ein hadolygiad o'r Datganiad am Reolaeth Fewnol gadarnhad bod ei ffurf, cynnwys a chywirdeb yn cydymffurfio â SoRP. Gall yr Awdurdod wella cynnwys y Datganiad am Reolaeth Fewnol o hyd, yn arbennig o ran y gwaith o warantu penodol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

| Argymhelliad | |
|---|---|
| A5 | Gall yr Awdurdod wella cynnwys y Datganiad am Reolaeth Fewnol o hyd, yn arbennig o ran y gwaith o warantu penodol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. |

## Dylid adolygu'r sail ar gyfer dyrannu costau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau

22. Dangosodd ein hadolygiad fod y sail ar gyfer dyrannu costau gwasanaeth yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd ers cyflwyno'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (BVACOP). Dylid ystyried adolygu'r sail ar gyfer dyrannu costau i sicrhau ei bod yn briodol o hyd ac yn parhau i gydymffurfio â gofynion BVACOP.

| Argymhelliad | |
|---|---|
| A6 | Dylai'r Awdurdod adolygu'r sail ar gyfer dyrannu costau gwasanaeth yn unol â BVACOP er mwyn sicrhau bod y sail gyfredol ar gyfer dyrannu costau yn briodol o hyd. |

## Gellir atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer adolygu cynnwys y datganiadau ariannol drafft.

23. Nid oes trefniadau ar gyfer adolygu cynnwys y datganiadau drafft cyn iddynt gael eu cyflwyno i aelodau am gymeradwyaeth wedi cael eu gwneud hyd yma. Cyflwynwyd y mater hwn a chytunwyd arno gan y tîm rheoli yn ein Memorandwm Rheoleiddio ar gyfer 2004/2005.

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| A7 | Dylai'r awdurdod wneud trefniadau i adolygu datganiadau ariannol drafft cyn eu cyflwyno i'r Awdurdod am gymeradwyaeth. |

Atodiad 1

## Cynllun Gweithredu

| Tudalen | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb a chamau gweithredu | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Cynlluniau Parhad Busnes | A1 Dylai'r Awdurdod sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes yn cynnwys trefniadau priodol i warchod y brif system gyfrifyddu. | Gwarchod y brif system gyfrifyddu. | Do | Y Prif Gyfrifydd i drafod gydag adran TGCh Conwy. | Parhaus |
| 6 | Rheolaeth Gyllidebol | A2 Dylai'r Awdurdod sicrhau bod ei gyllideb yn parhau'n gadarn o ran darparu adnoddau priodol i gyflawni cyfrifoldebau ei wasanaeth tra'n cydnabod unrhyw gynnydd dilys mewn effeithlonrwydd. | Cynnal rheolaeth gyllidebol effeithiol. | Do | Cyllid a Chaffael Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad.<br>Enillion effeithlonrwydd i'w nodi a'u cofnodi fel rhan o'r broses cynllunio/ cyllideb. | 1 Ionawr 2007 ymlaen |
| 7 | Cau Cyfrifon yn Gynnar | A3 Dylai'r Awdurdod a Swyddfa Archwilio Cymru gydweithio'n agos i ddatblygu cynllun i gynorthwyo'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol 2006/2007 a'u harchwilio'n effeithiol er mwyn cyrraedd y terfyn amser diwygiedig ar gyfer ardystio. | Cyflawni rhwymedigaethau statudol. | Do | Prif Gyfrifydd.<br>Datblygu amserlen cau cyfrifon yn gynnar gyda Swyddfa Archwilio Cymru. | Erbyn mis Mawrth 2007 |

| Tudalen | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb a chamau gweithredu | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Datganiad am Reolaeth Fewnol | A4 Dylai'r Awdurdod drafod y posibilrwydd o ddiwygio'r sefyllfa ddeddfwriaethol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn galluogi awdurdodau tân i gynnal cronfeydd wrth gefn a rhwystro gwyriadau o Safon Adroddiad Ariannol (FRS) 12 rhag parhau am byth. | Bodloni gofynion FRS 12. | Do | Cyllid a Chaffael Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad.<br>I'w godi fel rhan o'r drafodaeth ehangach ynglŷn â phraeseptio a neilltuo o ran y Grant Cynnal Refeniw. | Parhaus |
| 8 | Cyfrifyddu Gwerth Gorau | A5 Gall yr Awdurdod wella cynnwys y Datganiad am Reolaeth Fewnol o hyd, yn arbennig o ran y gwaith o warantu penodol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. | Gwella ansawdd y Datganiad am Reolaeth Fewnol. | Do | Cyllid a Chaffael Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad i drefnu asesiad sylfaenol allanol. | I'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2007 |
| 8 | Darpariaethau | A6 Dylai'r Awdurdod adolygu'r sail ar gyfer dyrannu costau gwasanaeth yn unol â BVACOP er mwyn sicrhau bod y sail gyfredol ar gyfer dyrannu costau yn briodol o hyd. | Gwella ansawdd y datgeliad mewn datganiadau ariannol. | Do | Cyllid a Chaffael Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad i gynnal adolygiad cyn cau cyfrifon. | I'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2007 |
| 9 | Sicrwydd Ansawdd | A7 Dylai'r Awdurdod wneud trefniadau i adolygu datganiadau ariannol drafft cyn eu cyflwyno i'r Awdurdod am gymeradwyaeth. | Cynnal a gwella ansawdd datganiadau ariannol drafft. | Do | Prif Gyfrifydd i drefnu adolygiad cyn cyflwyno. | Mehefin 2007 |

Atodiad 2

## Rhestr o ddiwygiadau nad ydynt yn fân ddiwygiadau

| Nodyn | Canfyddiadau | Diwygiad a wnaed |
|---|---|---|
| Nodyn 1 i'r Fantolen | Camddatganwyd y 'Gwerth Llyfr Gros fel yr oedd ar 1 Ebrill 2005' a'r 'Dibrisiant Cronedig fel yr oedd ar 1 Ebrill 2005' gan nad oeddent yn cytuno â balansau a gariwyd ymlaen ac a gynhwyswyd yn natganiadau ariannol ardystiedig 2004/2005.<br>Gorddatganwyd y 'Gwerth Llyfr Gros fel yr oedd ar 1 Ebrill 2005' ar gyfer Tir ac Adeiladau a ddatganwyd yn Nodyn 1 i'r Fantolen 'Asedau Sefydlog' o £909,000. Hefyd gorddatganwyd y 'Dibrisiant Cronedig fel yr oedd ar 1 Ebrill 2005' ar gyfer Tir ac Adeiladau o swm cyfatebol. | Mae diwygiadau wedi'u gwneud i gywiro'r symiau a gamddatganwyd.<br>Nid oedd y diwygiadau yn effeithio ar unrhyw ddatganiadau eraill yn y cyfrifon. |
| Nodyn 1 i'r Fantolen | Nid oedd eithrio'r swm cario net ar ddechrau'r cyfnod ariannol yn cydymffurfio â pharagraff 4.30 o'r 'Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2005: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir'. | Diwygiwyd Nodyn 1 i ddatgan y swm cario net ar ddechrau'r cyfnod ariannol (1 Ebrill 2005) ar gyfer pob dosbarth o ased sefydlog diriaethol. |
| Nodyn 1 i'r Fantolen | Diwygiwyd y tendrau dŵr yn Nodyn 1 i'r fantolen 'Ymrwymiadau Cyfalaf 2006/2007 ymlaen' o £1,030,000 i £1,256,000. Yn sgîl hyn, cynyddodd y cyfanswm ymrwymiadau cyfalaf o £1,349,000 i £1,575,000. | Diwygiwyd y datgeliad i adlewyrchu archebion ychwanegol am dendrau dŵr, y cawsant eu heithrio mewn camgymeriad. Ni chafodd y diwygiad hwn unrhyw effaith ar ddatganiadau eraill yn y cyfrifon. |
| Nodyn 9 i'r Fantolen | Roedd Nodyn 9 i'r fantolen 'Darpariaethau' yn cynnwys 'Darpariaeth Archwilio' o £45,000.<br>Nid oedd yn bosibl cadarnhau'r 'Darpariaeth Archwilio'. | Symudwyd y ddarpariaeth wedi hynny, ac fe'i cynhwyswyd yn 'Darpariaeth Cyllideb 2006/2007.<br>Ni chafodd y diwygiad hwn unrhyw effaith ar ddatganiadau eraill yn y cyfrifon. |
| Nodyn 9 i'r Fantolen | Roedd Nodyn 9 i'r fantolen 'Darpariaethau' yn cynnwys 'Darpariaeth Lifrau' o £83,000. Mae'r fantolen yn ymwneud â phrynu offer diogelu personol yn y dyfodol a gynhwyswyd yn rhaglen gyfalaf 2005/2006. | Adolygwyd y balans wedi hynny o ddarpariaeth i gronfa gyfalaf. |

| Nodyn | Canfyddiadau | Diwygiad a wnaed |
|---|---|---|
| Cyfrif Refeniw Cyfunol | Roedd 'Costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd' a adlewyrchir yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol yn cynnwys costau a oedd yn ymwneud â thrwyddedau hydrantau tân gyda chost o £19,000.<br>Nid oedd y driniaeth yn cydymffurfio â gofynion Atodiad E i BVACOP 2005. | Diwygiwyd y Cyfrif wedi hynny gyda'r gost wedi'i hadlewyrchu yn yr adran Diogelwch Tân Cymunedol.<br>Ni chafodd y diwygiad hwn unrhyw effaith ar ddatganiadau eraill yn y cyfrifon. |
| Cyfrif Refeniw Cyfunol | Tanddatganwyd y 'Costau Nas Dosbarthwyd' a adlewyrchwyd yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol o £125,000 oherwydd peidio â chynnwys costau gwasanaeth blaenorol. Diwygiwyd y 'Costau Nas Dosbarthwyd' wedi hynny i gynnwys costau gwasanaeth blaenorol.<br>Nid oedd y driniaeth yn cydymffurfio â gofynion Atodiad E i BVACOP 2005. | Ni chafodd y diwygiad hwn unrhyw effaith ar ddatganiadau eraill yn y cyfrifon. |
| Nodyn 4 i'r Cyfrif Refeniw Cyfunol | Hepgorwyd 'Enillion Gwasanaeth Blaenorol' o £225,000 ar gyfer Cronfa Bensiwn Clwyd o'r tabl i Nodyn 4(iii) i 'Symudiadau ar y Gronfa Bensiwn' yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol.<br>Nid oedd y driniaeth yn cydymffurfio â pharagraff F3 o'r 'Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2005: Datganiad o Arfer a Argymhellir'. | Diwygiwyd y Tabl wedi hynny i gynnwys yr enillion gwasanaeth blaenorol. |

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk